Pa mor bell mae pobl wedi mynd? – atebion (1)

Mwnci – mae gwyddonwyr yn America wedi gwneud *sawl ymdrech i glonio* mwncïod ond, hyd yn hyn, nid ydynt wedi llwyddo. Canlyniad yr ymdrechion agosaf oedd 'Tetra' sef gefell unfath genetig embryo mwnci arall. Fodd bynnag, mae'r gwyddonwyr hyn wedi *addasu* mwnci o'r enw ANDi *yn enetig*.

Ci – mae'r anifeiliaid hyn wedi cael eu *magu'n ddetholus* ers llawer blwyddyn, yn bennaf am eu golwg ond hefyd am eu natur a'u sgiliau gwaith. Mae gwyddonwyr yn Ne Corea wedi *clonio* ci i greu clôn o'r enw "Snuppy".

Panda mawr – mae gwyddonwyr yn Tsieina wedi creu *embryonau wedi'u clonio* o bandas mawr, ond nid oes unrhyw bandas wedi'u clonio wedi cael eu geni eto.

Mamoth blewog – Mae gwyddonwyr yn Rwsia a Japan wedi *ceisio clonio'r* anifail diflanedig hwn ond, hyd yn hyn, nid yw'r ymdrechion wedi llwyddo.

Blaidd Tasmania – Mae gwyddonwyr yn Awstralia wedi *ceisio clonio*'r anifail diflanedig hwn ond nid oeddent yn llwyddiannus ac ers hynny maent wedi rhoi'r gorau i'r ymchwil hwn.

Cyw iâr – mae'r adar hyn wedi cael eu *magu'n ddetholus* gan bobl dros lawer o flynyddoedd er mwyn iddynt dyfu'n gyflymach a chynhyrchu mwy o wyau. Yn ddiweddarach, fe'u magwyd yn ddetholus gyda rhywogaeth o adar heb blu i greu cywion ieir heb blu. Hefyd, mae gwyddonwyr yn yr Alban wedi *addasu* cywion ieir *yn enetig* i ddodwy wyau sy'n cynnwys cyffuriau at ddefnydd dynol ond, hyd yn hyn, nid yw cywion ieir wedi cael eu clonio.

Blaidd – mae gwyddonwyr yn Ne Corea wedi cynhyrchu dau flaidd wedi'u *clonio* o flaidd llwyd yn Sw Seoul.

Dafad – bu pobl yn *magu'r* anifeiliaid hyn *yn ddetholus* ers llawer blwyddyn am eu cig a'u gwlân. Hefyd mae defaid wedi cael eu *clonio* gan wyddonwyr yn yr Alban (Dolly) a'u *haddasu'n enetig* gan wyddonwyr yn Awstralia.

Llygoden – mae'r anifeiliaid hyn wedi'u *magu'n ddetholus* mewn labordai ers y 1970au. Mae llygod bellach yn cael eu *haddasu'n enetig* yn rheolaidd at ddibenion ymchwil, ac mae gwyddonwyr yn America wedi cynhyrchu'r llygoden gyntaf *wedi'i chlonio* o'r enw Cumulina.

Gafr – bu pobl yn *magu'r* anifeiliaid hyn *yn ddetholus* ers llawer blwyddyn am eu llaeth a'u gwlân. Mae geifr wedi cael eu haddasu'n *enetig* hefyd i gynhyrchu cyffuriau a chynhyrchion eraill yn eu llaeth, a'u *clonio* gan wyddonwyr yn Tsieina.

Pa mor bell mae pobl wedi mynd? – atebion (2)

Buwch – mae'r anifeiliaid hyn wedi'u *magu'n ddetholus* gan bobl am eu llaeth a'u cig, yn ogystal â'u *haddasu'n enetig* a'u *clonio*.

Cath – mae'r anifeiliaid hyn wedi'u *magu'n ddetholus* ers llawer blwyddyn, yn bennaf am eu golwg. Mae gwyddonwyr hefyd wedi ceisio *addasu* cathod *yn enetig*, ond ni wnaed unrhyw anifail felly yn gyhoeddus eto. Mae cathod wedi cael eu *clonio* ond ni wneir hyn yn rheolaidd. Un tro, hysbysebodd cwmni yn America wasanaeth i glonio cathod anwes ond caeodd yn ddiweddarach oherwydd prinder galw.

Mochyn – mae'r anifeiliaid hyn wedi'u *magu'n ddetholus* ers llawer blwyddyn, yn bennaf am eu cig, e.e. cynhyrchu mwy o gig a chig llai brasterog. Hefyd mae moch wedi cael eu *haddasu'n enetig* at ddibenion ymchwil neu i gynhyrchu organau a meinwe i'w trawsblannu mewn pobl. Yn yr un modd, mae gwyddonwyr ledled y byd wedi llwyddo i *glonio* moch.

Pysgodyn – mae'r anifeiliaid hyn yn cael eu *magu'n ddetholus* yn rhan o'r broses ffermio am eu llwyddiant o ran atgenhedlu a'u cyfradd tyfu. Mae pysgod hefyd yn cael eu *haddasu'n enetig* yn rheolaidd gan bobl at ddibenion ymchwil, ac maent wedi'u haddasu at ddibenion masnachol i wneud iddynt dyfu'n gyflymach byth. Mae pysgod hefyd wedi cael eu *clonio*.

Cwningen – mae'r anifeiliaid hyn wedi cael eu *magu'n ddetholus* ers llawer blwyddyn am eu ffwr a'u cig. Mae gwyddonwyr hefyd wedi *addasu* cwningod *yn enetig*, yn ogystal â'u *clonio*.

Gawr – mae'r rhywogaeth hon o ych Asiaidd prin wedi cael ei *chlonio* ond dim ond am ychydig ddiwrnodau y bu'r clôn cyntaf, "Noah", fyw.

Ceffyl – caiff yr anifeiliaid hyn eu *magu'n ddetholus* yn rheolaidd am nifer o wahanol nodweddion. Hyd yma, ni lwyddwyd i *addasu* ceffylau *yn enetig*, ond mae rhai ceffylau chwaraeon wedi cael eu *clonio*.

Pryf ffrwythau – mae'r pryfed hyn wedi cael eu *magu'n ddetholus* at ddibenion ymchwil. Maent hefyd yn cael eu *haddasu'n enetig* yn rheolaidd ac maent wedi cael eu *clonio*.